| ***1. Amcanion sy'n addas i ddysgwyr unigol neu grŵp o ddysgwyr (amcanion dysgu wedi'u dynodi'n glir)*** | ***Cwestiynau i'w gofyn*** | **Cwestiynau i ganfod y ffynonellau tystiolaeth** |
|---|---|---|
| *1.1 Mae'r prosesau ar gyfer rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau doeth, realistig.<br>Mae barn a dyheadau'r dysgwyr eu hunain yn cael eu hystyried wrth ganfod darpariaeth addas, ac mae'r amcanion yn dynodi'n glir beth yw amcanion a dyheadau'r dysgwyr yn y tymor hir.* | *Ystyriwch i ba raddau y mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i ddeall eu hopsiynau ar ôl bod yn y coleg.<br><br>Ystyriwch i ba raddau rydych chi'n gofyn i ddysgwyr am eu dyheadau ar ôl bod yn y coleg, ac i ba raddau mae'r rheini'n cael eu deall ac yn amlwg yn eu darpariaeth.<br><br>Ystyriwch i ba raddau y mae dysgwyr yn cael gwybodaeth hygyrch i'w helpu i wneud dewisiadau a phenderfyniadau* | *Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod y prosesau ar gyfer rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gael i'r grŵp hwn o ddysgwyr, a bod y prosesau hynny'n eu cefnogi ac yn addas iddynt?<br><br>Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio wrth recriwtio a chanfod darpariaeth addas?* |
| *1.2 Mae rhaglenni'n cynnig heriau addas i'r dysgwyr* | *Pa mor dda y mae rhaglenni'n rhoi cyfleoedd dysgu newydd ac amrywiaeth o brofiadau newydd i ddysgwyr, a'r rheini'n ysgogi ac yn annog dysgu, gan alluogi dysgwyr i gael dyheadau a'u paratoi at fywydau'n oedolion?* | *A oes tystiolaeth sy'n dangos bod cysylltiad rhwng y gwaith i gynllunio'r rhaglen a gwybodaeth bontio'r dysgwr, yr hyn mae wedi'i ddysgu eisoes, a chyrchfannau tebygol y dysgwr?* |

| | | |
|---|---|---|
| *1.3 Bydd y deilliannau dysgu'n galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau personol, sgiliau cymdeithasol, sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau bywyd sydd wedi'u dynodi ganddynt fel rhai a fydd yn eu helpu i gyrraedd y gyrchfan o'u dewis.* | *Pa mor berthnasol yw'r deilliannau dysgu a'r sgiliau a gynigir wrth baratoi dysgwyr at fywydau yn oedolion? I ba raddau y mae'r rheini'n cyd-fynd yn dda â chyrchfannau tebygol dysgwyr?* | *Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod deilliannau rhaglenni'n berthnasol a'u bod yn cyd-fynd yn dda â chyrchfannau tebygol dysgwyr? Beth yw cyrchfannau tebygol dysgwyr? Pa mor dda y mae'r maes dysgu yn olrhain cyrchfannau dysgwyr dros gyfnod o amser?* |
| *1.4 Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu'r galw lleol a chenedlaethol pan fydd hynny'n berthnasol ac mae'n ymateb i anghenion dysgwyr.* | *Pa mor wybodus yw'r rheini sy'n cynllunio darpariaeth? Pa mor dda yw'r cysylltiadau ag asiantaethau allanol perthnasol?* | *Pa dystiolaeth sydd fod y cyfleoedd lleol am swyddi wedi'u hystyried wrth gynllunio'r ddarpariaeth? Pa dystiolaeth sydd i ddangos y gellid teilwra'r rhaglen yn unol ag anghenion dysgwyr unigol? Pa mor llwyddiannus yw dysgwyr wrth gael gwaith ar ôl gadael y coleg?* |
| ***1. Asesiad cychwynnol i ganfod man cychwyn y dysgwr*** | | |
| *2.1 Mae cysylltiadau agos ag awdurdodau lleol/ysgolion bwydo/gwasanaethau gyrfaoedd/rhieni a gofalwyr yn sicrhau bod systemau cyfathrebu wedi'u sefydlu sy'n rhoi gwybodaeth berthnasol am anghenion dysgwyr ar y dechrau* | *Pa systemau sy'n bodoli i sicrhau bod y Coleg yn cael y wybodaeth y mae ei hangen arno am ddysgwyr i sicrhau bod y dysgwyr yn pontio'n ddiffwdan?* | *Pa dystiolaeth sydd o bartneriaeth rhwng y ddarpariaeth ac awdurdodau lleol/ysgolion bwydo/gwasanaethau gyrfaoedd/rhieni a gofalwyr? Pa dystiolaeth sydd bod systemau rhannu gwybodaeth yn bodoli a bod y cysylltiadau'n gyson? Beth y mae'r wybodaeth am gadw a chwblhau yn ei ddweud wrth y coleg am effeithiolrwydd y trefniadau pontio?* |

| | | |
|---|---|---|
| *2.2 Mae barn a dyheadau dysgwyr, eu hasesiadau o'u hanghenion eu hunain, a'u dewisiadau yn ganolog i'r broses asesu gychwynnol ac i'w gweld yn amlwg ynddi* | *Sut y mae'r coleg yn cael gwybodaeth gan ddysgwyr am eu hanghenion a'u dewisiadau? Sut y mae'r coleg yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn rhan ganolog o'r broses asesu gychwynnol?* | *A oes tystiolaeth o ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynnal yr asesiad cychwynnol? Beth y mae gweithgareddau sy'n clywed llais dysgwyr yn ei ddweud am farn dysgwyr ynghylch eu cyfraniad at y broses asesu gychwynnol?* |
| *2.3 Mae'r asesiad cychwynnol yn addas i'w ddiben yng nghyd-destun y rhaglen ddysgu a'r dysgwyr; rydym yn cael gwybodaeth am y canlynol:*<br>• *lefelau bras gwybodaeth a sgiliau dysgwyr; sgiliau a galluoedd ehangach gyda phwyslais addas ar gyfathrebu, annibyniaeth, cyflogadwyedd a lles*<br>• *unrhyw gyflawniadau, cymwysterau ac achrediadau;*<br>• *profiad blaenorol;*<br>• *sgiliau presennol a throsglwyddo sgiliau; mae hyn yn cynnwys sgiliau a galluoedd ehangach, gyda phwyslais addas ar gyfathrebu, annibyniaeth, cyflogadwyedd a lles;* | *Sut y mae'r holl feysydd gwybodaeth hyn yn cael eu cofnodi?*<br><br>*Sut y mae proses yr asesiad cychwynnol yn cael ei chynnal?*<br><br>*Pa mor dda yw'r broses wrth asesu sgiliau dysgwyr o dan bob colofn? Sut y mae sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol yn cael eu hasesu?*<br><br>*Sut y mae hyn yn hygyrch i bob dysgwr; a oes ystod o ddulliau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod modd cael darlun cyflawn o'r unigolyn?* | *Pa dystiolaeth sy'n rhan o weithdrefn yr asesiad cychwynnol sy'n dangos bod y broses yn cael gwybodaeth o'r cyfnod pontio, y cyrsiau cyswllt a chyfweliadau â dysgwyr?*<br><br>*Pa dystiolaeth sydd yn neilliannau a thargedau dysgwyr i ddangos bod yr asesiad cychwynnol wedi'i seilio ar y rhain?*<br><br>*Pa dystiolaeth sydd o drafodaethau – â rheolwyr adrannau, tiwtoriaid cyrsiau, athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu, a dysgwyr – fod yr asesiad cychwynnol yn addas i'w ddiben?* |

| | | |
|---|---|---|
| • *anghenion cefnogaeth ychwanegol dysgwyr a allai gynnwys anghenion iechyd, cyfathrebu a gofal personol;*<br>• *y ffyrdd o ddysgu y mae dysgwyr yn eu ffafrio: strategaethau a dulliau addysgu, dysgu ac asesu; a*<br>• *dyheadau dysgwyr ar gyfer y dyfodol a'r math o fywyd/gwaith y mae angen eu paratoi ato.* | *Pwy sy'n rhan o'r broses?*<br><br>*Sut y mae hwn yn brofiad cadarnhaol i'r dysgwr, yn hytrach nag yn fater o ganfod beth na all dysgwr ei wneud yn unig, a chadarnhau teimlad o fethiant?* | |
| *2.4 Mae proses yr asesiad cychwynnol yn cael ei hadolygu a'r arferion yn cael eu gwella er mwyn ymateb i anghenion a chyflawniadau dysgwyr a'r adborth a geir ganddynt. Rydym yn ceisio gwella'r broses yn barhaus.* | *Sut y mae'r broses yn cael ei hadolygu? Pwy sy'n rhan o'r adolygiad hwn? Beth sy'n digwydd i ganlyniadau'r adolygiad – a yw'n arwain at gamau gweithredu sy'n cyflwyno gwir newid yn y flwyddyn nesaf?* | *A yw'r dogfennau cylch ansawdd a'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys adolygiad o'r asesiad cychwynnol? A all y maes dysgu ddangos sut y mae wedi addasu'r prosesau asesu cychwynnol wrth ymateb i adborth gan ddysgwyr?* |
| ***2. Canfod amcanion dysgu sy'n cynnig heriau addas: cychwynnol, wedi'u haildrafod, ac wedi'u diwygio.*** | . | |
| *3.1 Mae'r asesiad cychwynnol yn sail i'r gwaith o gynllunio'r rhaglen a gosod amcanion heriol; mae cynlluniau dysgu unigol yn adlewyrchu canlyniadau'r asesiadau cychwynnol.* | *Pa systemau sy'n bodoli i sicrhau bod canlyniadau'r asesiad cychwynnol yn cael eu defnyddio'n sail i'r broses o osod amcanion?* | *A oes tystiolaeth o amcanion sydd wedi'u datgan yn glir, ac sy'n cynnig heriau addas, ym mhob rhaglen, a phan fydd hynny'n briodol, i bob dysgwr?*<br><br>*A yw sampl o amcanion dysgwyr yn rhoi tystiolaeth o broses sy'n canolbwyntio ar yr* |
| *3.2 Ceir amcanion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac wedi'u mynegi mewn termau sy'n 'ystyriol o ddysgwyr'. Maent yn benodol, yn fesuradwy, yn ystyrlon ac yn berthnasol i fywyd* | *A yw dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr yn gwybod beth yw eu hamcanion? A yw'r rheini sy'n gallu cymryd rhan yn y broses o osod amcanion wedi gwneud hynny, ac a ydynt yn* | |

| | | |
|---|---|---|
| *go iawn a byddant yn helpu dysgwyr i symud tuag at eu hamcanion hirdymor a'u cyrchfannau tebygol. Ar raglenni hwy, maent yn cynnwys targedau tymor byr, canolig a hir.* | *eu deall? A oes amcanion hirdymor a byrdymor ill dau? A ydynt yn berthnasol i'r dysgwr ac i'w cyrchfan debygol* | *unigolyn? A yw'r trafodaethau â'r dysgwyr yn cadarnhau hyn? A yw'r sampl yn dangos yr amcanion wedi'u hysgrifennu mewn termau sy'n ystyriol o ddysgwyr?* |
| *3.3 Mae unigolyn sydd â chyfrifoldeb wedi'i ddiffinio'n glir ac/neu mae llwybrau cyfrifoldeb clir ar gyfer gosod, adolygu, aildrafod a diwygio amcanion dysgwyr a monitro cynnydd.* | *Pwy sy'n gwneud hyn?*<br>*Sut y mae amser yn cael ei reoli ar gyfer gwneud y gwaith hwn?* | *A oes tystiolaeth yn nisgrifiadau swyddi, disgrifiadau rolau a matrics timau sy'n dangos pwy sy'n gyfrifol am y broses o osod, adolygu, aildrafod a diwygio amcanion dysgwyr ac am fonitro cynnydd.* |
| *3.4 Mae cyfle gan ddysgwyr i aildrafod amcanion dysgu ac i gytuno ar ganlyniadau personol ychwanegol sy'n adlewyrchu eu diddordebau, eu cymhellion a'u hanghenion.* | *Pa systemau sydd yn eu lle i ganiatáu hyn?*<br>*Sut y mae hyn yn cael ei gefnogi? Pa mor aml y mae'n digwydd?* | *A yw cofnodion dysgwyr (gan gynnwys cofnodion electronig) yn rhoi tystiolaeth o hyn?*<br><br>*A yw trafodaethau – â rheolwyr adrannau, tiwtoriaid cyrsiau, athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu a dysgwyr – yn cadarnhau bod systemau'n bodoli a bod gwybodaeth yn llifo rhyngddynt?* |
| *3.5 Mae modd i ddysgwyr ddefnyddio gwybodaeth neu sgiliau y maent wedi'u dysgu mewn gwahanol gyd-destunau.* | *Sut y mae gwybodaeth am sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr yn cael ei throsglwyddo o'r naill sesiwn addysgu i'r llall?*<br>*Pa systemau sydd wedi'u sefydlu i sicrhau bod y sgiliau a ddysgwyd yn cael eu cryfhau ymhellach gan ddefnyddio gwahanol gyd-destunau?* | |
| *3.6 Os yw dysgwyr yn cwblhau cymwysterau/achredu, mae digon o gydbwysedd rhwng hyn a gweithgareddau dysgu. Mae'r achredu yn berthnasol i* | *Sut y penderfynir ar y defnydd o achredu?*<br>*A oes ei angen mewn gwirionedd:*<br>• *i fodloni gofynion mynediad cwrs arall?* | |

| | | |
|---|---|---|
| *anghenion dysgu'r dysgwr ac i'w gyrchfan debygol.* | • *i helpu i fodloni manyleb y person ar gyfer swydd?*<br>• *i ddangos bod rhywun yn addas ar gyfer swydd mewn ffordd sy'n cael ei chydnabod gan y cyflogwr?*<br>• *i ysgogi pobl?* | *A oes tystiolaeth mewn cynlluniau dysgu sy'n dangos sut y mae penderfyniadau am y defnydd o achredu wedi'u gwneud?* |
| ***3. Cydnabod a chofnodi cynnydd a chyflawniad, adborth, myfyrio gan y dysgwyr, ac adolygiadau o gynnydd*** | | |
| *4.1 Ceir proses gadarn drwy'r sefydliad i gasglu a defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i gefnogi'r dysgwr, a hynny drwy holl daith y dysgwr. Ceir systemau dibynadwy i olrhain cynnydd yr holl ddysgwyr mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol* | *Pa systemau sy'n bodoli? Pa mor effeithiol yw'r rheini? Sut y gwyddoch chi hyn?* | *A oes tystiolaeth o ddull addas-i'w-ddiben ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd myfyrwyr? A all y coleg ddangos y cynnydd y mae unigolion a charfannau o ddysgwyr yn ei wneud?* |
| *4.2 Mae tystiolaeth o ddysgu yn cael ei chofnodi'n glir, gyda golwg ar y targedau dysgu, ac mae'n dangos y cynnydd a wneir. Mae'n ystyrlon i'r dysgwr ac i randdeiliad eraill.* | *Sut y mae tystiolaeth yn cael ei chofnodi? A yw dysgwyr yn cyfrannu at gofnodi eu dysgu? A yw dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn deall eu targedau dysgu a sut y maent yn gwneud cynnydd?* | *A yw ffeiliau/portffolios dysgwyr yn cynnwys tystiolaeth ystyrlon o ddysgu?* |
| *4.3 Defnyddir dulliau creadigol i wrando ar lais y dysgwr ac i ymateb i hynny.* | *Pa ddulliau a ddefnyddir i sicrhau eich bod yn gwrando ar yr holl ddysgwyr? A yw hyn yn cynnwys dysgwyr â chanddynt anghenion cymhleth?*<br>*Sut y defnyddir y wybodaeth?* | *A oes fersiynau hygyrch ar gael o'r cofnodion o gynnydd mewn iaith hawdd i'w deall neu* |

| | | |
|---|---|---|
| | *Sut y mae'r ymatebion yn cael eu cyfathrebu i'r dysgwyr a rhanddeiliaid eraill?* | *gyfryngau eraill, er enghraifft, lluniau, ffilmiau ac ati?*<br><br>*A oes enghreifftiau sy'n rhoi tystiolaeth o ddulliau creadigol o wrando ar lais y dysgwr ac ymateb i hynny?* |
| *4.4 Caiff dysgu a chyflawniadau ychwanegol neu rai sydd heb eu cynllunio eu nodi a'u cofnodi'n effeithiol hefyd* | *Pa systemau sy'n bodoli i sicrhau bod hyn yn digwydd?* | *Pa dystiolaeth sydd i'w chael yn y systemau olrhain dysgwyr a'r cynlluniau dysgu sy'n dangos hyn?* |
| *4.5 Mae dysgwyr yn cael adborth ynghylch sut y maent yn cyflawni eu canlyniadau dysgu a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau cynnydd.* | *Pa systemau sy'n bodoli i sicrhau bod dysgwyr yn cael adborth mewn ffurf y maent yn ei deall?*<br>*[Mae ymchwil yn dangos bod yn well gan ddysgwyr y term 'adborth' ac y byddai dysgwyr yn gallu myfyrio a hunanasesu'n well drwy gael mwy o ddeialog â'r athrawon a thrwy rannu'r meini prawf a'r normau a ddefnyddir i werthuso cynnydd a chyflawniadau.]* | *Wrth arsylwi ar addysgu, a oes tystiolaeth o'r adborth a roddir i ddysgwyr? A yw'r adborth hwn mewn ffurf y mae dysgwyr yn ei deall? A all dysgwyr ddisgrifio'r cynnydd y maent wedi'i wneud a beth y mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella?* |
| *4.6 Mae adolygiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu cynnal drwy'r holl raglen, ac maent yn ymateb i anghenion wrth iddynt newid. Mae adolygiadau'n edrych ar y cynnydd ac yn gwirio'r cynnydd hwnnw, gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.* | *Pa mor aml y mae'r adolygiadau'n cael eu cynnal? Sut y mae gwybodaeth ynghylch cynnydd yn cael ei darparu ar gyfer y broses adolygu? Pwy sy'n rhan o hyn? Sut y mae amser y staff yn cael ei neilltuo ar gyfer y broses adolygu?* | *A yw sampl o'r adolygiadau'n rhoi tystiolaeth o hyn? A oes gan y rhaglen galendr sy'n dangos pryd y mae'r adolygiadau'n cael eu cynnal?* |

| | | |
|---|---|---|
| *4.7 Mae adolygiadau o gynnydd yn dangos sut y mae ymarfer athrawon yn gwella.* | *Sut y mae gwybodaeth am gynnydd dysgwyr yn cael ei rhannu ag athrawon a sut y maent yn gweithredu ar hynny? Sut y caiff hyn ei wirio? Sut y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio'n sail i sesiynau datblygu proffesiynol parhaus? Pa gysylltiadau sy'n bodoli rhwng y broses adolygu a'r broses o gynllunio gwaith/sesiynau?* | *A yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â datblygu proffesiynol parhaus a'r broses o gynllunio sesiynau yn rhoi tystiolaeth o hyn?* |
| *4.8 Mae adolygiadau o gynnydd yn dangos sut y mae cyflawniadau dysgwyr yn gwella.* | *Sut y caiff hyn ei fonitro?* | *A yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r broses o olrhain cynnydd yn rhoi tystiolaeth o hyn?* |
| *4.9 Mae adborth gan y dysgwyr yn dangos yr effaith ar addysgu a dysgu.* | *Pa gysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol sy'n bodoli i greu cysylltiad rhwng yr adborth a geir gan ddysgwyr a'r broses o gynllunio sesiynau a dulliau addysgu?* | *A yw cofnodion y broses o gynllunio sesiynau yn rhoi tystiolaeth o hyn? A all dysgwyr ac/neu athrawon ddisgrifio sut y mae adborth gan ddysgwyr wedi effeithio ar addysgu a dysgu?* |
| ***5. Hunanasesu gan y dysgwr ar ddiwedd y rhaglen; asesiad crynodol athrawon; adolygiad o gynnydd a chyflawniad cyffredinol*** | | |
| *5.1 Caiff prosesau asesu ac adolygu crynodol eu cynnal gyda'r dysgwyr, a phan fydd hynny'n briodol, gydag unigolyn dynodedig, er mwyn iddynt gyd-berchnogi'r broses.* | *Sut y mae'r asesiadau crynodol yn cael eu cynnal? Pwy sy'n gyfrifol amdanynt? Sut fath o berchnogaeth sydd gan y dysgwyr o'r broses? Sut y caiff hyn ei reoli?* | *A oes tystiolaeth o gyd-berchnogi'r broses yng nghofnodion hunan-asesu'r dysgwr a chofnodion asesiadau grwpiau a chymheiriaid? A yw cofnodion yr athrawon o weithgareddau asesu a chynnydd a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *chyflawniad unigolion/grwpiau yn rhoi tystiolaeth o ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?* |
| *5.2 Mae'r broses adolygu ar ddiwedd y rhaglen yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn gynhwysol, ac mae'n defnyddio dulliau a chyfryngau creadigol pan fydd hynny'n briodol.* | *Sut y mae'r broses adolygu ar ddiwedd y rhaglen yn cael ei gwneud yn hygyrch i bawb?* | *A oes ystod o ffeiliau, dyddlyfrau, dyddiaduron, portffolios, gwaith celf; fideos, tapiau sain, gwaith llaw, ffotograffau; tystiolaeth gan ddysgwyr unigol neu grwpiau sy'n dangos dull creadigol, cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr?* |
| *5.3 Mae asesiad crynodol yr athro yn adlewyrchu targedau'r dysgwyr, ac yn rhoi adolygiad cyffredinol o'r cynnydd a thystiolaeth o'r cyflawniadau sy'n ystyrlon i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill.* | *Sut y mae asesiadau crynodol yr athrawon yn cael eu safoni a'u gwerthuso?* | |
| *5.4 Mae cyflawniadau'n cael eu dathlu.* | *Pa systemau sy'n bodoli i ddathlu cyflawniadau?* | *A oes tystiolaeth o hyn? A oes cofnodion o berfformiadau, arddangosfeydd ac arddangosiadau? A oes cofnodion o berfformiadau, arddangosfeydd ac arddangosiadau?*<br>*A yw calendr y rhaglen yn rhoi tystiolaeth o ddathlu drwy gydol y flwyddyn?*<br>*A yw'r trafodaethau â dysgwyr yn rhoi tystiolaeth o bwysigrwydd y digwyddiadau/dathliadau hyn iddynt hwy?* |
| *5.5 Ceir tystiolaeth bod rhaglenni dysgu:*<br>• *wedi cyflawni nodau dysgwyr;* | *Pa systemau sy'n bodoli i fonitro a gwerthuso rhaglenni dysgu? Sut ydych chi'n cadw llygad ar ddata am gynnydd (data ansoddol a meintiol ill dau)?* | *A oes tystiolaeth o ddata ansoddol a meintiol ill dau sy'n dangos hyn?* |

| | | |
|---|---|---|
| • *yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau personol, y sgiliau cymdeithasol a'r sgiliau cyflogadwyedd i fod yn fwy annibynnol yn eu bywydau bob dydd.* | | |
| *5.6 Mewn rhaglenni amser llawn, mae dysgwyr yn pontio'n effeithiol i ddarparwyr cyrchfannau.* | *Pa systemau pontio sy'n bodoli i ddysgwyr sy'n gadael y rhaglen? Pa gysylltiadau sy'n bodoli â darparwyr cyrchfannau?* | *Pa dystiolaeth sy'n bodoli yn y protocolau pontio, dogfennau'r broses bontio, a chofnodion cyfarfodydd o ba mor effeithiol yw hyn?*<br>*A oes tystiolaeth yn nogfennau'r broses bontio, y protocolau pontio a chofnodion cyfarfodydd a chofnodion dysgwyr sy'n dangos hyn?* |
| *5.7 I bob dysgwr, mae dogfennau'n cael eu paratoi ar gyfer darparwyr cyrchfannau yn brydlon, y dysgwyr sy'n berchen ar y rhain, ac maent yn cael eu trosglwyddo gyda'u caniatâ.* | *Sut y caiff hyn ei fonitro? Sut y gofynnir am ganiatâd y dysgwyr?* | |
| *5.8 Mae adborth o adolygiadau'r dysgwyr yn sail i gynllunio at y dyfodol.* | *Pa systemau sy'n bodoli i greu cysylltiad rhwng yr adborth o adolygiadau'r dysgwyr a'r broses o gynllunio ar y dyfodol?* | *A yw tystiolaeth o hyn wedi'i chynnwys yn adroddiad hunanasesu maes y rhaglen ac mewn unrhyw ddogfennau cymedroli ac adolygu cyrsiau mewnol eraill?*<br><br>*A oes tystiolaeth yn y data am gyrchfannau? A yw'r data'n cael ei echdynnu i ganfod problemau ac i roi sail i'r cynllun gweithredu?*<br><br>*A yw trafodaethau â dysgwyr, tiwtoriaid cyrsiau, athrawon, rheolwyr y cwricwlwm a rheolwyr ansawdd yn cadarnhau hyn?* |
| *5.9 Mae cyrchfannau dysgwyr yn cael eu olrhain yn gywir pan fydd dysgwyr yn gadael y maes dysgu neu'r Coleg. Caiff data am gyrchfannau eu casglu, eu hadolygu, a'u defnyddio'n sail ar gyfer yr adroddiadau hunanasesu.* | *Sut y caiff data am gyrchfannau eu holrhain a'u defnyddio?* | |
| *5.10 Mae canlyniadau'r cam hwn yn y broses yn cael eu hadolygu'n drylwyr a chymerir camau i wella ymarfer a gwella cynnydd, cyflawniadau a dilyniant dysgwyr.* | *Pa systemau sy'n bodoli i sicrhau bod hyn yn digwydd?* | |

| | | |
|---|---|---|
| | | *[Mae'n debygol y bydd y dystiolaeth yn cynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol, ac y bydd yn dangos deilliannau dysgu a gynlluniwyd a deilliannau dysgu sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddarach]* |